

# Cenn@d

MAWRTH 15 2023 YN CYNNWYS Y GOLEUAD A SEREN CYMRU RHIF 107

## Dydd Gweddi'r Byd

Dydd Gwener, 3 Mawrth, oedd Dydd Gweddi'r Byd eleni, a chynhaliwyd gwasanaethau ledled Cymru yn rhan o'r digwyddiad byd-eang hwn – rhai ar y diwrnod ei hun ac eraill ar ddyddiau cyfagos, er enghraifft ddydd Sul, 5 Mawrth. Mudiad Eciwmenaidd Byd-eang a arweinir gan ferched yw Dydd Gweddi'r Byd, a gwahoddir gwledydd gwahanol i baratoi'r gwasanaeth bob blwyddyn. Chwirydd Taiwan oedd wedi paratoi'r gwasanaeth eleni, a'r thema a ddewiswyd ganddynt oedd 'Clywais am eich ffydd', yn seiliedig ar Effesiaid 1:15–16.

Dyma ddetholiad o luniau o rai o'r gwasanaethau a gynhaliwyd, a'r cymdeithasu yn dilyn y gwasanaeth hefyd. Bu Carys Humphreys, sy'n weithiwr cenhadol ar ran Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn Taiwan, yn addoli mewn gwasanaeth yn Taipei yn y bore, cyn ymuno dros Zoom â'r gynulleidfa yng Nghynllwyd ac yng Ngholeg y Bala gyda'r hwyr.



Capel y Rhos, Llandrillo-yn-Rhos



Capel y Dyffryn, Llandyrnog, gyda Chwirydd Eglwys Sant Tynog



Carys Humphreys mewn oedfa yn Taipei, Taiwan



Taipei, Taiwan



Capel Ffynnonbedr, Sir Gaerfyrddin



Capel y Groes ac Ebeneser, Wrecsam



Chwirydd Mynydd Seion Abergele



Capeli Dinbych gyda 'i gilydd yng Nghapel y Fron



Coleg y Bala, gydag aelodau Gofalaeth Thomas Charles, Annibynwyr ac Eglwys Crist y Bala

[\(parhad ar y dudalen nesaf\)](#)

**O'r byd a'r betws  
Prinder, parch a chyfle  
Tudalen 3**

**Delweddau o seintiau  
Cymreig mewn eglwysi  
Tudalen 4**

**'Gwybod y geiriau' –  
Geiriadur y Gair, Geraint Lewis  
Tudalen 7**



## Dydd Gweddi'r Byd

(parhad o dudalen 1)



Eglwys Castellnewydd Emlyn



Capel Seion, Ceredigion



Capel Pen-cae, gydag Eglwys Annibynol Nanternis



Capel Cynllwyd, Gofalaeth Bro Llanuwchllyn



Clapham, Llundain



Capel y Garn a'r Noddfa, Bow Street



Capel Pen-llwyn ac Eglwys Dewi Sant, Capel Bangor



Blaenannerch, Ceredigion

## Dathlu Gŵyl Ddewi



Aelodau Ysgol Sul Rhydfendigaid, Pontrhydfendigaid, yn eu gwasanaeth a chyngerdd Gŵyl Ddewi



Braint a phleser ar brynhawn Sadwrn olaf mis Chwefror oedd cael cwmni grŵp Aelwyd Manceinion i'n diddori yn Noddfa, Oaker Avenue, gyda rhaglen o ganeuon Cymraeg – dwsin o fyfyrwyr a chyn-fyfyrwyr o'r Coleg Cerdd (RNCM) yn hanu o bob rhan o Gymru ac yn dathlu Gŵyl Ddewi mewn cân. Diolch o galon iddynt am ein cynorthwyo i gadw traddodiad Gŵyl Ddewi yn fyw.

Elwyn Evans





## O'r byd a'r betws

### Prinder, parch a chyfle



Dros yr wythnosau diwethaf gwelwyd sawl undeb proffesiynol yn streicio, gan sbarduno'r dadleuon arferol. Bydd rhai'n cydymdeimlo â'r Trysorlys, gan ddadlau na all economi Prydain fforddio codiadau cyflog i'r rhai sy'n gweithio i'r wladwriaeth fel gweision sifil. Bydd y sylwebyddion, y wasg a'r cyfryngau am herio'r wladwriaeth a'r undebau, gan chwilio am ddatrysiad rhesymol ac ymarferol.

Yr hyn nad yw'r Trysorlys yn San Steffan wedi ei wynebu yw'r prinder staff mewn meysydd meddygol, addysgol, yr heddlu, a gweinyddiaeth gyffredinol ar bob lefel o lywodraethu. Byddwn yn effro i'r perygl fod y gweithlu yn gyffredinol yn poeni na fydd athrawon cymwys ar gael oni bai fod yna gyflogau byw, amgylchiadau gwaith teg a pharch tuag at y proffesiynau yn gyffredinol. Y mwyaf i gyd yw'r corff – boed yn Awdurdod Iechyd, yn Awdurdod Addysgol neu'n Awdurdod Heddlu – y mwyaf oll yw'r haenau o fiwrocratiaeth. Wrth i fiwrocratiaeth gynyddu, yna mae'r gweinyddu'n sugno adnoddau oddi ar y rhai sy'n cerdded y wardiau, coridorau'r ysgolion neu strydoedd trefi a phentrefi.

O aros gyda'r ysgolion a'r colegau yn yr erthygl hon, byddwn yn ymwybodol o'r newidiadau sy'n digwydd o gymharu gwahanol gyfnodau. Prin y byddai'r athrawon a ddechreuodd ddysgu yn 1980, dyweder, yn medru amgyffred y pwysau cynyddol a'r disgwyliadau academaidd uwch y bydd y wladwriaeth yn eu gosod. Ar y llaw arall, mae'r athrawon yn wynebu amarch arswydus oddi wrth nifer cynyddol o rieni a disgyblion. Ni ellir cymharu ardaloedd



Llun: Marvin Meyer <https://unsplash.com/photos/SYTO3xs06fu>

breintiedig â'r ardaloedd difreintiedig, ardaloedd sydd â chanran uwch o deuluoedd yn dibynnu'n gyfan gwbl ar y Wladwriaeth Les. Ni ellir cymharu'n deg ardaloedd gwledig ag ardaloedd trefol a phoblog. Aeth yn arfer i gymathu ysgolion uwchradd a chynradd, gydag un pennaeth a nifer o athrawon eraill yn cyflawni llu o ddyletswyddau nad ydynt yn addysgu'n uniongyrchol mewn ystafelloedd dosbarth.

Cam diweddar fu ail-lunio cwricwlwm ar gyfer yr ysgolion hyn. Bu'r ysgolion cynradd wrthi'n barod, gan geisio plethu mwy o'r cwricwlwm yng nghyd-destun cynefin yr ysgolion unigol. Un o eiriau clo yr argymhellion o du'r Llywodraeth yw'r gair 'cynefin'. Nodir bod angen i'r cwricwlwm uwchradd ddefnyddio amgylchiadau ac adnoddau sy'n lleol i'r ysgol, wrth addysgu'r disgyblion. Bydd y defnydd o'r Gymraeg yn destun

perthnasol, boed yng Ngwynedd neu yng Ngwent.

Byddai cymharu nifer y bobl fu'n gweithio ar y tir neu'n pysgota ar y môr yn ddiddorol ac addysgol, ond prin fod modd trafod pynciau morwrol ym Mhowys, o'i gymharu ag Ynys Môn. Heb os, mae digon o enghreifftiau ym meysydd llên, cerdd a chelf yn ein gwlad, a gall eglwysi gynnig cefndir a deunyddiau mewn sawl maes a nodwyd eisoes. Gall eglwysi fod yn adnodd a ffynonellau gwybodaeth gwerthfawr, drwy iddynt fod mewn deialog â'r disgyblion eu hunain. Mae'n debyg na fyddai'r disgyblion wedi mynychu llefydd o addoliad fel y byddent wedi'i wneud 50-70 mlynedd yn ôl, a heb fodd i wybod amdanynt, oni bai fod yna ddeialog yn digwydd.

Dyma gyfle i eglwysi unigol gysylltu â'r ysgolion lleol a gofyn beth allant ei wneud er mwyn cynorthwyo athrawon yr ysgolion a dangos i'r disgyblion fod gan y gymdeithas oddi allan i furiau'r ysgolion ddiddordeb byw yn yr hyn sy'n digwydd o'u mewn. Mae ysgolion yn defnyddio ambell gapel fel neuadd gyngerdd, ond mae'r sefyllfa newydd hon yn cynnig llawer mwy. Gallai hyn ddatblygu'r berthynas rhwng eglwys ac ysgol, a meithrin parch a pherthynas rhwng y cymunedau hyn, fel bod addysg yn ymwreiddio yn y cynefin sy'n etifeddiaeth i bawb.



## Delweddau o seintiau Cymreig mewn eglwysi

Maellyfr newydd a gyhoeddwyd ar ddydd Gŵyl Dewi yn cyflwyno amrywiaeth syfrdanol o ddelweddau o seintiau o eglwysi ledled Cymru.

Mae seintiau cynnar Cymru wedi dod yn rhan annatod o stori'r genedl. Erys ein nawddsant, Dewi Sant, yn rhan hanfodol o hunaniaeth Gymreig fodern. Ac mae i eraill megis Teilo, Illtud, Cadfan, Melangell, Beuno a Gwenffrewi neu Gwenfrewy le arbennig yn nhraddodiadau gwahanol ranbarthau Cymru.


Dywed yr awdur Martin Crampin: 'Mae hanesion y gwŷr a'r gwragedd a adnabyddir fel seintiau Cymru yn ei gwneud yn glir eu bod ar un adeg yn cael eu parchu'n eang fel noddwyr a gwarchodwyr eglwysi a ffynhonnau sanctaidd ledled Cymru yn yr Oesoedd Canol. Ers hynny mae eu henwau a'u chwedlau wedi gwreiddio mewn enwau lleoedd a llên gwerin.'

Dyma'r astudiaeth gyntaf o'r portread o seintiau'r genedl ac mae'n datgelu trysorfa ddisglair o ddelweddau mewn gwyrdd lliw, cerflunwaith a chyfryngau

eraill, na welwyd fawr ddim ohonynt mewn print o'r blaen. Mae dros 500 o ffotograffau hardd o tua 250 o eglwysi ar hyd a lled Cymru yn adrodd stori am le'r seintiau yn niwylliant crefyddol Cymru ac fel ffigurau cenedlaethol.

Dywed Martin Crampin: 'Mae'r rhan fwyaf o ddiwylliant gweledol canoloesol cyfoethog seintiau Cymru wedi mynd ar goll, ond mae cyfoeth o ddelweddau ers canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg i'w cael mewn eglwysi Cymreig. Rwyf wedi teithio ar hyd a lled Cymru yn casglu delweddau ac yn gobeithio y bydd y llyfr hwn yn dangos pa weithiau celf anhygoel sy'n cael eu harddangos mewn eglwysi ledled y wlad.'

Mae'r llyfr clawr caled trawiadol hwn, sydd wedi'i ddarlunio mewn lliw drwyddo draw, yn mynd ar daith o amgylch eglwysi cadeiriol ac eglwysi – mawr a bach – yng nghanol dinasoedd, mewn maestrefi tawel, trefi, pentrefi a chaeu pellennig; mae rhai ohonynt bellach ar gau. Yn y gyfrol ceir golwg ffres ar y gelfyddyd yn ein heglwysi, gan gymharu agwedd gwahanol artistiaid a stiwdios. Dengys hefyd sut mae ein



dirnadaeth o seintiau Cymru wedi newid dros y blynyddoedd.

Ar adeg pan fo cymunedau'n gweithio'n galed i sicrhau bod eu heglwysi'n parhau ar agor ar gyfer addoliad ac ymwelwyr, mae'r llyfr yn amserol i'n hatgoffa o'r trysorau artistig sydd i'w cael mewn mannau addoli.

Cyhoeddir *Welsh Saints from Welsh Churches* gan Martin Crampin gan wasg y Lolfa; pris: £35.

## Gofalaeth Caron

Nos Fawrth Ynyd daeth aelodau Capel Bethesda ynghyd gyda chapeli eraill yr ofalaeth i godi arian at Hadau Gobaith – Cymorth Cristnogol. Ymgyrch oedd hon i gynorthwyo gwledydd sy'n agored i effaith newid hinsawdd ar draws y byd, ac mae Cymorth Cristnogol yn cydweithio â phartneriaid ar lawr gwlad i sicrhau bod yr arian yn mynd lle bo mwya'r angen. Cynhaliwyd y noson dan arweiniad y Parchedig Carwyn Arthur, a llwyddwyd i godi dros £1,390 hyd yn hyn.

Roedd yn noson gymdeithasol hyfryd a pharatowyd paned o de a 'phoncage' gan yr aelodau. Roedd mynediad am ddim, a phawb yn rhoi yn ôl eu gallu. Cafwyd eitemau adloniant gan blant Ysgol Sul Tregaron, Meleri Morgan, Capel Bwlch-Illan a Pharti Ffrindiau.

### Apêl Hadau Gobaith (EBC)

Diolch i bawb sydd wedi casglu arian at Apêl Hadau Gobaith yn ystod y misoedd diwethaf.

Gofynnir i chwi ddychwelyd eich cyfraniadau i'r Apêl i Drysorydd eich Henaduriaeth erbyn 31 Mawrth 2023.

Bydd hyn yn hwyluso'r gwaith.

Diolch eto.





## Brecwast Gweddi Senedd Cymru

'Nid yw Cymru wedi gorffen â ffydd ac nid yw Duw wedi gorffen â Chymru.' Dyna oedd neges Siân Rees o Gymdeithas y Beibl, wrth iddi annerch yr Aelodau yn y Senedd. Siân oedd y wraig gyntaf i siarad ym Mrecwast Gweddi Senedd Cymru. Myfyriodd ar ffigurau cyfrifiad diweddar 2021 sy'n dangos bod nifer y bobl yng Nghymru sy'n nodi eu bod yn Gristnogion wedi gostwng o 57.6 y cant yn 2011 i 43.6 y cant yn 2021.



'Roedd rhai'n cymryd bod hyn yn golygu bod Cymru'n troi cefn ar Gristnogaeth,' meddai Siân. Ond ychwanegodd, 'Mae bod yn un o ddilynwyr Iesu Grist yn meddu ar ystyr ac arwyddocâd dwfn, ac mewn oes lle gall person uniaethu â chymaint o bethau gwahanol, pam y

byddai unrhyw un yn dewis uniaethu fel rhywbeth nad yw'n eu disgrifio'n gywir? Mae proffil crefyddol cenedl yn llawer mwy cymhleth na dim ond tic mewn bocs.'

Wrth fyfyrion ar Ddydd Gŵyl Dewi, siaradodd Siân am bwysigrwydd

pererindod. 'Mae Cymru'n adnabyddus ar draws y byd fel cenedl sydd wedi dod ar draws Duw drwy adfywiadau anhygoel, i filoedd o bobl ddo i adnabod yr Arglwydd Iesu mewn symudiadau rhyfeddol o Dduw,' meddai wrth Aelodau Senedd Cymru. 'Yn aml, ymgymerir â phererindodau gydag ymdeimlad o ddisgwyliad o gysylltiad dyfnach â Duw, lle mae'r pererinion yn rhoi gofod iddynt eu hunain i brofi'r manau tenau hynny lle mae'r bwch rhwng y nefoedd a'r ddaear yn mynd yn fach iawn neu hyd yn oed ddim yn bodoli.

'Beth petai pererindod yn ymwneud llai ag ymweld â lle cysegredig, ond yn hytrach yn daith tuag at berthynas bersonol â Duw? Rhaid i bob un ohonom benderfynu drosom ein hunain a ydym am fynd ar daith tuag at berthynas â Iesu ai peidio,' meddai.

## Brecwast Gŵyl Ddewi Gŵyl Rhinwedd a Moes

Cynhaliwyd Brecwast Gŵyl Ddewi dan nawdd Gŵyl Rhinwedd a Moes yng Nghaffi Beca, Efail-wen, fore Sul, 26 Chwefror, ac roedd yn braf gweld y lle dan ei sang.

Croesawyd pawb ynghyd gan y Cadeirydd, Eurfyl Lewis, cyn i bawb ymuno i ganu'r emyn 'Dysg i mi garu Cymru' i gyfeiliant Ceirios Jenner. Cafwyd darlleniad gan y Parchedig Guto Llywelyn a gweddi gan y Parchedig Ken Thomas, ac yna bu pawb yn mwynhau brecwast bendigedig Caffi Beca!

Wedi i bawb gael eu digoni, bu Eurfyl yn cyflwyno'r siaradwraig wadd, sef Mererid Hopwood o Langynnwr, un â'i gwreiddiau'n ddwfn yn nhir Pencaer, sir Benfro. Mae pawb yn gwybod am y ddawn, y brwdfrydedd a'r gallu rhyfeddol sydd gan Mererid i gyfathrebu â cynulleidfa o bob oed, yn arbennig felly ymhlith pobol ifanc. Mae hi wedi annog, dylanwadu ac ysbrydoli cenedlaethau ohonynt ar hyd y blynyddoedd. Yn ogystal â bod yn enillydd prif wobrau llenyddol yr Eisteddfod Genedlaethol, mae'n aelod brwd o Gymdeithas y Cymod ac yn Llywydd Anrhydeddus Cymdeithas Waldo.

Cafwyd anerchiad gwirioneddol wych ganddi, wedi ei gyflwyno yn ei ffordd

unigryw, ddihafal ei hun. Bu'n bleser gwrandao arni ac roedd cymeradwyaeth frwd a gwresog y gynulleidfa ar y diwedd yn brawf pendant eu bod wedi gwerthfawrogi'r ddarlith yn fawr iawn. Diolchodd Eurfyl iddi'n diffuant am ddo atom. Diolchodd hefyd i Robert a Delyth James a'u staff ymroddgar am baratoi brecwast bendigedig ar ein cyfer; i Meryl James, yr ysgrifenyddes, am gydlynw'r holl drefniadau; i Gwenda Mathias, y trysorydd, am ofalu am yr arian; i Ceirios am gyfeilio; i Guto a Ken am y rhannau arweiniol, ac i'r gynulleidfa am eu presenoldeb a'u cyfraniadau ariannol. Casglwyd swm o £357 tuag at Ymchwil Lewcemia a chyfrannwyd swm o £120 tuag at apêl argyfwng Syria a Twrci.

Ymunodd pawb i ganu'r emyn 'Dros Gymru'n Gwlad' ar ddiwedd bore dymunol a bendithiol, a thraddodwyd y fendith gan y Parchedig Eirian Wyn Lewis.

Bu'r brecwast yn arbrawf llwyddiannus iawn a mynegodd nifer o bobol yr awydd i gynnal gweithgaredd tebyg eto'r flwyddyn nesaf.

Dyma englynion o waith Wyn Owens, Mynachlog-ddu, i gyfarch Mererid Hopwood.



Yn y llun gwelir Meryl James (Ysgrifenyddes), Gwenda Mathias (Trysorydd), Y Parchedig Guto Llywelyn, Eurfyl Lewis (Cadeirydd), Ceirios Jenner, Y Parchedigion Ken Thomas ac Eirian Wyn Lewis

### I Mererid

Ym mheroriaeth Mererid – ei hynni  
Sydd inni'n galondid.  
Rhy o'i dysg er rhai di-hid  
O heddwch ac o'n rhyddid.

Deced yw nod cymodi – a chyd-ddyn  
Heb elyn na bwli.  
A'i doniau'n sail odani  
Mae'r wawr uwch ei chamre hi.

Diwro yw'n hawdures, – un a'i ffordd  
Mor ddi-ffael o gynnes.  
Egnïol yw, dwg i'n les,  
Eicon ein gwlad wyt, roces.

*Eurfyl Lewis*

# Rhodd Gostus Crist o Gymod

Cyfes o fyfyrddodau ar gyfer y Grawys gan yr Eglwys Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon (CTBI)

## Wythnos 4

'Cymodi gwlad glwyfedig - dysgu oddi wrth yr Eglwys yn Sri Lanka'

Ysgrythur: Rhufeiniaid 8:18-30

## Myfyrddod

'Ein gweddi daer yw y caiff "newid" ei gyflawni drwy ddulliau heddychlon. Galwn am ymdawelu, ymatal ac amynedd ymhlith ein pobl yn y sefyllfa ddiryngol a bregus hon.' (Datganiad Cyngor Cristnogol Cenedlaethol Sri Lanka, 10 Mai 2022)

Yr wythnos hon, gweddiwn gyda phobl Sri Lanka, ac i gefnogi gwaith Cyngor Cristnogol Cenedlaethol Sri Lanka, ar adeg o ansicrwydd mawr a chyffro gwleidyddol yn y wlad honno. Mae'r CTBI yn cefnogi gwaith Cyngor Cristnogol Cenedlaethol Sri Lanka i ddyfnhau ysbryd o gymod drwy ddefnyddio ffydd fel elfen ganolog i ymgysylltu â gwaddol trais a rhaniadau, a'r anghydraddoldeb sy'n deillio o ganlyniad i hynny sy'n cael effaith niweidiol ar ddyfodol gwleidyddol ac economaidd ansicr.

Mae gan y CTBI a rhai o'r eglwysy sy'n aelodau o'r mudiad berthynas hirhoedlog gyda'r Eglwys yn Sri Lanka. Arferai'r ynys hon, sy'n cynnwys trigolion o sawl hil, fod yn drefedigaeth Brydeinig, ac roedd planhigfeydd helaeth ar gyfer y British East India Company wedi'u lleoli arni. Yn dilyn annibyniaeth, arweiniodd tensiynau ethnig at ddegawdau o wrthdaro treisgar rhwng Llywodraeth Sri Lanka a Theigrod Rhyddid Tamil Eelam, gyda 60,000 o farwolaethau o leiaf. Gwelwyd dadleoli pobl a cham-drin hawliau dynol ar raddfa eang. Fe wnaeth eglwysy ym Mhrydain ac Iwerddon gefnogi gwaith yr Eglwys yn Sri Lanka yn adeiladu heddwch, gan rannu profiadau o'r broses heddwch yn Iwerddon.

Mae ein project cyfredol yn adeiladu ar y gwaith hwnnw gyda ffocws ar ddiwinyddiaeth y wlad. Canolbwynt llawer o'r gwrthdaro yn Sri Lanka yw cwestiynau'n ymwneud â thir. Mae bod heb dir a diffyg hawliau ar eiddo yn rhwystrau sylweddol i gymodi a sicrhau heddwch parhaol. Drwy'r project, mae'r Cyngor Cristnogol Cenedlaethol yn ceisio cefnogi'r Eglwys i ymgymryd â myfyrddod hunan-feirniadol, i roi sylw i'w dallineb a'i methiannau blaenorol, a sicrhau bod ei diwinyddiaeth



yn cysylltu â realaeth bywydau bob dydd pobl, yn enwedig y cymunedau mwyaf bregus sydd wedi cael eu gwrthio i'r cyrion. Caiff materion yn ymwneud â hawliau tir a gwrthdaro'n ymwneud â thir eu harchwilio o safbwynt cyfiawnder hinsawdd, cyfiawnder rhywedd a thrawsnewid gwrthdaro, gan nodi'r pwyntiau cyswllt niferus rhwng y themâu hyn.

Drwy gydol 2022, wrth i argyfwng gwleidyddol ac economaidd y wlad waethygu, fe aeth Cyngor Cristnogol Cenedlaethol Sri Lanka ati i gyflwyno nifer o ymyriadau. Cydnabu arweinwyr eglwysig fod yr ifanc wedi bod â rhan sylweddol yn y gwaith o ysgogi ac arwain y mudiad dros newid, a'u bod yn wynebu peryglon mawr o ran eu diogelwch:

Fe wnaethon nhw alw am ffurfio llywodraeth hollbleidiol "er mwyn i bawb allu byw fel dinasyddion gyda chydarddoldeb ac urddas" (Cyngor Cristnogol Cenedlaethol Sri Lanka, 20 Gorffennaf 2022). Ar lefel cymunedau lleol, fe roddon nhw bwyslais arbennig ar arweinyddiaeth gan fenywod, a threfnwyd cynhadledd genedlaethol a ddaeth â menywod o wahanol gefndiroedd ynghyd o dan y thema 'Dagrau ym mharadwys a'r angen i sefyll gyda'n gilydd'. Roedd hon yn ffordd o gydnabod fod yna ddiodefaint dwfn yn llechu o fewn prydferthwch tirwedd Sri Lanka na ellir ei wella ond drwy ddod â chymunedau ynghyd.

Yn 2023 y prif ffocws fydd cofnodi 200 mlynedd o bresenoldeb cymuned y blanhigfa, cymuned o bobl a gludwyd i Sri Lanka gan yr awdurdodau Prydeinig i weithio yn y planhigfeydd coffi a the. Mae'r Cyngor Cristnogol Cenedlaethol yn gweithio i amlygu cyfraniad y gymuned hon at economi Sri Lanka a'r genedl gyfan, a'r un pryd hefyd yn ceisio amlygu'r heriau a wynebant heddiw - yn byw heb gartrefi neu gyfeiriadau post, yn gweithio am lai na chyflog byw. Drwy weddi ac addoliad, byddant yn ceisio creu cyfleoedd ar gyfer tystio, cydsefyll ac edifeirwch.

Mae adnodau'r wythnos hon o'r Ysgrythur yn ein hatgoffa bod Duw yn bresennol yng nghanol ein diodefaint, gan gadw addewid cymod o'n blaenau. Gweddiwn y bydd Duw

yn bendithio ymdrechion Cyngor Cristnogol Cenedlaethol Sri Lanka wrth iddo geisio tywys a chefnogi pobl drwy'r amseroedd heriol hyn.

## Cwestiynau

- Beth allwn ni ei ddysgu gan ymagwedd arweinwyr eglwysig yn Sri Lanka tuag at derfysg gwleidyddol a bygythiadau i ddemocratiaeth?
- Cafodd arweinwyr eglwysig yn Sri Lanka eu hysbrydoli gan bobl ifanc yn eu protestiadau dros newid ac maent wedi eu cefnogi'n gyhoeddus. A welwch chi gefnogaeth debyg i ymgyrchwyr ifanc yn eich eglwys?
- Ydych chi'n teimlo fod yr Eglwys yn ddigon uchel ei dloch wrth leisio barn ar fygythiadau i ddemocratiaeth o fewn eich cyd-destun?

## Camau Gweithredu

- Ewch i wefan [Cyngor Cristnogol Cenedlaethol Sri Lanka](#) (NCCSL) neu dilynwch nhw yn y cyfryngau cymdeithasol er mwyn cael eich diweddarau ynglŷn â'u gwaith. Rhannwch yr hyn rydych yn ei ddysgu ag eraill er mwyn codi ymwybyddiaeth.
- Ceisiwch ddod o hyd i ffyrdd o ddefnyddio enghraifft Sri Lanka, a gwaith Cyngor Cristnogol Cenedlaethol Sri Lanka, i ddechrau sgysiaeth am waddol gwladychu a chaethwasiath a'r ffyrdd ymarferol y gall yr Eglwys hybu gwella a chymod.
- A allech chi gynnwys gweddiâu dros Sri Lanka fel rhan o'ch addoliad ar wahanol adegau yn ystod y flwyddyn er mwyn cefnogi'r gwaith a wneir gan Gyngor Cristnogol Cenedlaethol Sri Lanka?

## Gweddi

Dduw cariadus,  
Gweddiwn dros bobl Sri Lanka wrth iddyn nhw weithio i wella clwyfau anghyfiawnder canrifoedd.  
Rho i eglwysy Sri Lanka yr hyder i aros ar y daith hon gyda'i gilydd, drwy Gyngor Cristnogol Cenedlaethol Sri Lanka, a gweithio mewn partneriaeth a chyfeillgarwch gyda chymunedau ffydd eraill.  
Boed i ni gael ein hysbrydoli drwy ddod â phobl o ffydd, merched ac ieuencid o wahanol gefndir ynghyd, i wneud safiad dewr dros gyfiawnder a dyfodol gwell.  
Helpa ni weld mai'r unigolion a'r cymunedau yn Sri Lanka y gwadwyd eu hawliau a'u hurddas yw ein cymdogion ac i dderbyn ein cyfrifoldeb i helpu i adfer yr hyn a gymerwyd oddi wrthyn nhw. Amen.

S4C

**Dechrau Canu, Dechrau Canmol**  
Sul, 19 Mawrth, am 7.30yp

Mae'n Sul y Mamau, diwrnod penodol o ddiolch a dathlu cyfraniad mamau. Bydd Ryland yn ein harwain drwy'r rhaglen o dref hyfyrd Dinbych-y-pysgod, a chawn glywed hanes gwreiddiau'r Sul arbennig yma.

BBC radio cymru

**Caniadaeth y Cysegr**

Sul, 19 Mawrth, am 7:30yb a 4:30yp

Rob Nicholls yn cyflwyno emynau o Gymanfa Westminster 2022

**Sul, 19 Mawrth, am 12:00yp**

Oedfa dan arweiniad Meinir Ffransis

## 'Gwybod y geiriau' – Geiriadur y Gair, Geraint Lewis

Rhaid bod yna beiriant cudd yn llechu yng nghartref Geraint Lewis yn Llangwryfon cyn ei fod yn llwyddo i droi allan eiriaduron mor swmpus sy'n gaffaeliad i lawer. Yn 2022 ymddangosodd y gyfrol hon, a diolch amdani. Fel y gŵyr y cyfarwydd, byddaf yn cynnal aml i oedfa ar y Sul ac mae cael adnodd fel yma wrth fy mhenelin tra 'mod i'n paratoi yn amhrisiadwy. Gynt, byddwn yn dibynnu i raddau helaeth ar gyfrolau Saesneg a'u cyfieithu, gan nad yw'r trysor 'Geiriadur Charles' yn fy meddiant.

Cawn wybodaeth am darddiad teitlau rhai cyfrolau enwog yn y Gymraeg, fel *Dail Pren* Waldo Williams o Lyfr y Datguddiad: "Ar ddwy lan yr afon yr oedd pren bywyd, ac yr oedd dail y pren er iachâd y cenhedloedd". Hefyd, *O! Tyn y Gorchudd* Angharad Price o Lyfr Exodus: "Pan ddaeth Moses i lawr o Fynydd Sinai gyda dwy lech y dystiolaeth, ni wyddai fod croen ei wyneb yn disgleirio ar ôl iddo siarad â Duw. Pan fyddai'n mynd o flaen yr Arglwydd i siarad ag ef byddai'n tynnu'r gorchudd nes iddo ddod allan."

O gofio cefndir yr awdur Angharad Price a chynnwys y gyfrol daw emyn mawr Hugh Jones, Maesglasau, i'r cof: "O tyn y gorchudd yn y mynydd hyn ..."

Byddaf bob amser yn edmygu person sy'n medru dyfynnu ymadroddion beiblaidd ac o ganlyniad yn cyfoethogi sgwrs. Ar adegau byddwn yn sôn am gefndir person drwy ddweud iddo fod yn ffyddlon i'w wreiddiau neu i'r graig y'i naddwyd ohoni. Dyma'r adnod gyntaf o Esaia 51: "Edrychwch ar y graig y'ch naddwyd ohoni ac ar y chwarel lle'ch cloddiwyd."

Gwelwn enghreifftiau addas hefyd sy'n berthnasol iawn i'r dyddiau dreng yma a brofw'n ar hyn o bryd. Daw'r adnod o lythyr cyntaf Timotheus, pennod 6 ac adnod 10: "Gwraidd pob math o ddrwg yw cariad at arian."


Daw ambell ddyfyniad â gwên i'r wyneb ac mae toreth ohonynt yn Llyfr y Diarhebbion. Beth am hon? "Fel modrwy aur yn nhrwyn hwch, felly mae gwraig brydferth heb synnwyr."

Oes, mae yma berlau. Rhai o'm hoff ddyweddiadau sy'n siarad cyfrolau yw: "Dyn dau-ddyblyg ei feddwl sy'n anwastad yn ei holl ffyrdd." Mor wir ac yn wers inni i gyd! "Mae enw da yn well na chyfoeth mawr, a charedigrwydd yn well nag arian ac aur."

Rhaid nad oedd awdur Llyfr y Diarhebbion yn or-hoff o ferched, fel y tystia'r adnod hon: "Mae gwraig gecrus yr un fath â diwrnod pan mae hi'n glawio'n ddi-stop. Mae rhoi taw arni fel ceisio stopio'r gwynt rhag chwythu neu ddal olew yn y llaw."

Mae ei agwedd yn newid tua diwedd y llyfr: "Gwraig sy'n parchu'r Arglwydd sydd yn haeddu cael ei chanmol. Rhowch glod iddi am beth mae wedi gyflawni, a boed i arweinwyr y ddinas ei chanmol am ei gwaith."

I bawb a fu ac sydd yn Ysgol Tregaron (Ysgol Henry Richard erbyn hyn), cofiwn am yr arwyddair 'Mewn llafur mae elw'. Oes, mae tarddiad beiblaidd i'r arwyddair hwn, a chofiw'n hefyd am emyn mawr y cyn-



Brifathro D. Lloyd Jenkins sy'n cloi fel hyn ac yn pwysleisio neges yr arwyddair:

Dduw holl bresennol, rhown ein cân  
Yn offrw'm gwiw ar d'allor lân,  
A boed holl elw'n llafur ni  
Yn gymeradwy gennynt Ti.

Anogaf unrhyw un i brynu'r gyfrol werthfawr a defnyddiol hon. Gall osgoi llawer o grafu pen a phori wrth chwilio am ddyfyniad beiblaidd addas. Diolch i Geraint Lewis unwaith eto am ei gymwynas fawr.

Beti Griffiths

*Geiriadur y Gair / A Biblical Dictionary*, D. Geraint Lewis. Cyhoeddwyd gan Gyhoeddiadau'r Gair, 2022; pris: £9.99. Adolygiad oddi ar [www.gwales.com](http://www.gwales.com), trwy ganiatâd Cyngor Llyfrau Cymru

## Mererid Hopwood yn cofio Bruce Kent



Cynhaliwyd seremoni deimladwy yn Finsbury Park, gogledd Llundain, ddydd Sadwrn, 4 Mawrth, i blannu coeden cnau Ffrengig er anrhydedd i Bruce Kent a fu farw fis Mehefin diwethaf. Daeth dros gant o bobl i'r digwyddiad, a drefnwyd gan yr Aelod Seneddol lleol, Jeremy Corbyn.

Ymhlith y rhai oedd yn bresennol yr oedd y Tad Udo Chinedu, Offeiriad Plwyf Sant Mellitus, cynrychiolwyr o Pax Christi, y Parch. Gyoro Nagase o'r Pagodas Heddwch Bwdhaidd, cynrychiolwyr o'r Mudiad dros Ddiddymu Rhyfel, Cymdeithas y Cenhedloedd Unedig, CND a Chyfiawnder a Heddwch San Steffan.

Yn ei haraith agoriadol, disgrifiodd Kate Hudson, Ysgrifennydd Cyffredinol CND, Bruce fel 'arweinydd aruthrol y mudiad heddwch'. Dywedodd: 'Roedd Bruce yn siaradwr cyhoeddus ysbrydoledig, yn ffraeth, yn finio, â gallu rhyfeddol nid yn unig i gyfleu ei farn yn glir ac yn rymus ond i gyfathrebu'n uniongyrchol â phob gwrandawr ar lefel ddynol iawn. Yn wir, nid yn unig yr oedd yn ffigwr cyhoeddus gwych, yr oedd hefyd yn ddyn a chanddo gariad mawr at ddynoliaeth a phenderfyniad i wneud popeth o fewn ei allu i ddod â newid i fywydau pobl ar bob lefel.'

Y siaradwr olaf oedd y bardd Mererid Hopwood, a deithiodd yr holl ffordd i Lundain ar gyfer y digwyddiad, er mwyn cael rhannu ei cherdd hyfryd 'Apostle of Peace' wedi'i chyflwyno er cof am Bruce.



# Dyma gyfarfod hyfryd iawn

## Gweld ac adnabod

### Gweddi

Arglwydd Dduw, yr hwn wyt yn trigo mewn gogoniant anhygyrch a disgleirdeb na all meddyliau meidrol byth ei amgyffred, diolchwn dy fod wedi dod i'n plith yn dy Fab Iesu Grist. Addewaist y byddai'r rhai oedd yn rhodio mewn tywyllwch yn gweld goleuni mawr dy bresenoldeb. Caniatâ i ninnau dy adnabod drwy'r Ysbryd Glân. Rhyddha ni drwy dy ras i fyw fel plant y goleuni.

**Darlenniad – Effesiaid 5:8–14 Byw a bod yn y goleuni**

**Emyn 571 – ‘Tyrd, Ysbryd Glân’**

**Darlenniad – Ioan 9:1–41 Iacháu Dyn Dall o'i Enedigaeith**

### Darlunio gras

Roedd angen i bawb, yn ôl cyfarwyddyd Iesu i Nicodemus, gael eu geni o'r newydd er mwyn iddynt 'weld' teyrnas nefoedd. Cynnig dŵr bywiol i enaid sychedig ger ffynnon yn Sychar a wnaeth Iesu. I'r rhai sy'n sychedig, daw cynnig Iesu o ddŵr bywiol i'n disychedu atom o hyd (Ioan 7:37).

Yma, drwy hanes ymwneud Iesu â gŵr a anwyd yn ddall, down at drydedd ffordd o ddisgrifio profiad y Cristion. Profiad ydyw o fedru gweld 'rhywbeth', yn hytrach o gael adnabod rhywun, oedd wedi ei guddio oddi wrthym gan ein dallineb. Tystiwn i wirionedd hyn wrth forio canu 'Lle'r oeddwn gynt yn ddall, rwy'n gweld yn awr' wrth seinio emyn-dôn 'Pantfyfedwen',

### Pwy a bechodd?

Roedd y disgyblion (adn. 2) a'r Phariseaid fel ei gilydd (adn. 34) yn cytuno bod a wnelo'r cyflwr o ddallineb cyswllt â phechod o ryw fath.

Ni dderbyniai Iesu ragdybiaethau'r dadansoddiad. Yn hytrach na gweld dioddefaint fel cosb, gwelodd Iesu berson anghenus y daeth gras adferol Duw hyd ato.

### Gweld

I fyd o ddiodeffaint, o bechod ac o ddryswch, lle mae'r greadigaeth yn ochneidio o'i mewn, daeth Mab Duw yn lladmetrydd, yn sefydlydd ac yn adeiladwr teyrnasiad gweithredol Duw yn y byd. Ni chwblheir gwaith y teyrnasiad hwnnw hyd nes y bydd y nef a'r ddaear wedi eu hadnewyddu a'u cymodi mewn symffoni o fawl i Dduw, tragwyddol ei ansawdd a'i barhad.

Rhyfeddod cychwynnol gras Duw ym mywyd unrhyw un ohonom yw'r gallu i 'weld', i ddechrau adnabod ac i gynyddu mewn adnabyddiaeth o Iesu, fel Mab y Dyn. Iddo ef, trwy benodiad y Tad, y mae'r deyrnas yn perthyn yn awr a hyd dragwyddoldeb.

### Dallineb

Gall 'dallineb' ysbrydol gael ei droi'n 'weld' y gwir drwy ras ein Harglwydd Iesu Grist. Ond ni ellir troi nac argyhoeddi'r rhai nad ydynt yn adnabod eu dallineb, y rhai na fyynnant weld, y rhai sy'n dewis peidio â deall.

Dadlennu'r hyn sydd ynom a wna geiriau a gweithredoedd grasol dyfodiad Iesu i'n plith.

Dychmygwch rywun byr ei olwg, neu ddall, yn mynd at optegydd.

Er i'r optegydd ei wahodd i ddarllen y llythrennau sydd ar y bwrdd, y gwir plaen yw na fedr weld y bwrdd na'r llythrennau uchaf sydd arni. Er i'r person hwnnw/honno ymfrostio nad oes angen sbectol o unrhyw fath arno neu arni i weld, mae ei (h)anallu i weld y sgrin yn cynnig asesiad a 'barn' wahanol o gyflwr y 'gweld'.

Yn ôl Efengyl Ioan, mae ein methiant i adnabod Iesu am yr hwn ydyw yn 'farn' yn wir ar bob haerriad o allu rhywun i 'weld' ac i ddeall pethau ysbrydol (adn. 40–41).

### Anghrediniaeth resymol

Adnabyddwn lais anghrediniaeth, pan sibryda ei agweddau difriol am weithgarwch Duw yng Nghrist. 'Sut gall "gwyrrth" ddigwydd?' meddir. Sut gallai unrhyw un gredu bod y bod dynol a safodd yn eu plith yn Dduw? Onid 'troseddwr' neu 'bechadur' yw pob un sy'n ymwrthod â'n diffiniadau ni o'r hyn sy'n bwysig? Rhaid mai troseddwr, rhaid mai 'pechadur' yw'r person a gyflawnodd y weithred hon ar y Saboth, meddai'r Phariseaid, oherwydd sut yn y byd fedrai unrhyw un ddweud ei fod yn Feseia, ei fod yn dod gan gyflawni gweithredoedd Duw, os yw'n fwriadol yn torri'r gyfraith a'r traddodiadau?

Yn y pen draw, ar ei symlaf, anghrediniaeth yw gwrthod cydnabod bod Duw ar waith mewn gweithredoedd adferol yn Iesu Grist, a thrwyddo, er gogoniant tragwyddol i Dduw ei hun!

### Adnabod Iesu

Yn nrama'r iachâd caiff y darlennydd sylwgar ambell gliw i'r 'Whodunnit' grasol hwn.

Cyffyrddodd Iesu â llygaid y gŵr. 'Dos i bwl Siloam,' meddai Iesu. Ystyr 'Siloam' yw 'eneiniog'. Wyt ti'n deall mai'r 'eneiniog' un ei hun sydd ar waith, drwy ei ymgawdoliad, drwy ei eiriau a'i weithredoedd i agor llygaid y dall?

Yn araf, gwawriodd y goleuni ar lygaid ysbrydol y gŵr a iachawyd. Y 'dyn' Iesu, meddai, a gyffyrddodd ag ef (adn. 11). Wrth iddo gael ei groesholi gan y sefydliad crefyddol, yn araf gwawriodd arno fod rhywun mwy na dyn cyffredin wedi dod ato a'i iacháu. 'Proffwyd' meddai, oedd yr hwn a'i hiachodd (adn. 17). Dechreuodd ddeall, fel Nicodemus gynt, fod gan Iesu berthynas agos gyda Duw ei hun!

Ni allai wadu, er iddo gael ei daflu allan o'r synagog, fod rhywbeth rhyfeddol wedi digwydd iddo. Bu'n ddall. Yn awr roedd yn medru gweld.

Gwahoddodd Iesu ef i gymryd un cam arall ar daith ei oleuo.

"A wyt ti'n credu ym *Mab y Dyn*?" (adn. 36) Mab y Dyn yw'r hwn y perthynai'r deyrnas iddo, ac ef yw'r un sy'n llywodraethu dros bob dim, ym mhob man, ym mhob oes, i dragwyddoldeb (Daniel 7:13–14). I'r hwn oedd yn dlawd ei ysbryd, daeth rhodd teyrnas Dduw. Cyffesai'r gŵr na fedrai 'weld', ond dyheai am fedru gweld.

Roedd 'credu' yn fwy na chydysniad. Credu oedd gollwng gafael ar bopeth yr oedd wedi meddwl ei fod yn ei wybod am Dduw; credu oedd mentro'r cyfan a feddai ar sail yr adnabyddiaeth gychwynnol hon. Gofynnodd y gŵr, 'Pwy yw ef, syr, er mwyn imi gredu ynddo?'

A chlywyd ganddo'r geiriau rhyfeddol, heriol, trawsnewidiol hyn: 'Meddai Iesu wrtho, "Yr wyt wedi ei weld ef. Yr un sy'n siarad â thi, hwnnw yw ef."' Iesu, yr hwn a adawodd ogoniant y nef ac a ddaeth hyd atom yn llawn gras a gwirionedd, yr unig-anedig oddi wrth y Tad. Iesu, yr hwn fyddai'n anfon yr Ysbryd Glân ar ei bobl. Iesu, rhyfeddod nef y nef.

Ac mewn ystum o addoliad, mewn ymostyngiad o ryfeddod, clywyd a derbyniwyd ei gyffes syml. 'Yr wyf yn credu, Arglwydd,' meddai'r dyn, gan ymgrymu o'i flaen.

### Gweddi

Arglwydd Iesu Grist, diolchwn i ti am bob budd a enllaist inni, am bob poen a gwawd a ddygaist drosom ni. Drugarocaf Waredwr, frawd a chyfaill, bydded inni dy adnabod yn well, dy garu'n anwylach, a'th ddilyn yn agosach, ddydd ar ôl dydd. Amen.

**Emyn 791 'Tydi a wnaeth y wyrth'**

RWJ

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

[watcyn@cennad.cymru](mailto:watcyn@cennad.cymru) | [huw@cennad.cymru](mailto:huw@cennad.cymru) | [aled@ysgolsul.com](mailto:aled@ysgolsul.com)

[www.cennad.cymru](http://www.cennad.cymru) | [f CennadCymru](https://www.facebook.com/CennadCymru) | [t @CennadCymru](https://twitter.com/CennadCymru)